Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020 -23

Adroddiad Monitro
Dyletswydd Adran 6

www.tancgc.gov.uk/cym

# Adran 1 - Cyflwyniad a Chyd-destun

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ragoriaeth gyda gweledigaeth i fod yn sefydliad o'r radd flaenaf. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd a gwarchod cynefinoedd ac adnoddau o fewn y 4,500 milltir sgwâr o gefn gwlad sy'n bennaf yn wledig mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol amdano.**



Mae tanau gwyllt yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn. Mae'r gwasanaeth eisiau

gweithio gyda'n cymunedau i adeiladu tirwedd iachach a mwy gwydn, drwy ddatblygu cefn gwlad mwy bioamrywiol ar gyfer ein dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth yn aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ein hamcanion Llesiant. Mae'r Gwasanaeth wedi croesawu ein dyletswyddau a'n rôl fel partner statudol ar draws chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi ymrwymo i weithio tuag at gyflawni'r amcanion o fewn y cynlluniau Llesiant.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i leihau ei effaith ar yr amgylchedd, a adlewyrchir trwy ein hymrwymiadau yng Nghynllun Strategol, Polisi Amgylcheddol, System Rheoli Amgylcheddol a Strategaethau'r Gwasanaeth. Mae'r Cynllun Strategol 2022-2027 yn amlinellu Ymrwymiadau pum mlynedd y Gwasanaeth, a ddatblygwyd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio. Tymor hir, Integreiddio, Ymgysylltiad, Cydweithio, Ataliad.

Mae diweddariadau ac ystadegau manwl ar effeithiau ar yr amgylchedd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a'r Strategaeth Pum Mlynedd ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd, sydd ill dau wedi'u cyhoeddi ar wefan allanol y Gwasanaeth.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei lle i gyflawni yn erbyn ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar waith i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, gan amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amlinellu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru, mae Adran 6 o dan Ran 1 o'r Ddeddf yn amlinellu Dyletswydd i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau eu bod yn gyson ag arfer priodol eu swyddogaeth ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth ei Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyntaf 2020-23 ym mis Mehefin 2020, yn unol â strwythur adrodd y flwyddyn ariannol. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Dyma adroddiad cyntaf y Gwasanaeth i Lywodraeth Cymru, sy'n monitro cynnydd yn erbyn amcanion a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cychwynnol. Bydd Cynllun nesaf y Gwasanaeth, Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023 -2026, yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2023.

Mae'r Adroddiad Monitro hwn yn rhoi trosolwg o'r camau a'r mentrau allweddol y mae'r Gwasanaeth wedi'u cyflawni dros y 3 blynedd diwethaf i gyfrannu at y 6 amcan a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru.

## Dyma 6 amcan NRAP Cymru:

### Amcan 1
**Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel**

### Amcan 2
**Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

### Amcan 3
**Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd**

### Amcan 4
**Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd**

### Amcan 5
**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**

### Amcan 6
**Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.**

Ers cyhoeddi'r amcanion, mae 5 thema o weithredu wedi'u datblygu i ategu'r amcanion.
Y pum thema yw:

- **Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth;**
- **Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth;**
- **Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd;**
- **Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni;**
- **Llywodraethu, ffrydio ac adrodd ar ein cynnydd**

Bydd Amcanion NRAP Cymru, ynghyd â'r themâu sydd newydd eu datblygu, yn sail i'r amcanion a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur 2023 -26 y Gwasanaeth.

# Adran 2 - Uchafbwyntiau, Canlyniadau a Materion Allweddol

## Beth sydd wedi gweithio'n dda?

**Gwnaed cryn dipyn o waith yn ystod y 3 blynedd diwethaf i gyrraedd yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Gwasanaeth 2020-2023. Mae'r cyflawniadau hyn wedi'u cofnodi isod ac fe'u datblygwyd ochr yn ochr ag Amcanion yr NRAP yn 2019. Mae'r adran ganlynol yn dangos y prosiectau a'r cyflawniadau a wnaed yn ystod y 3 blynedd diwethaf gan y Gwasanaeth.**

## Amcan 1

**Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel**

Dros y 3 blynedd diwethaf, mae'r Amgylchedd wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau Corfforaethol y Gwasanaethau. Amlygir amcanion amgylcheddol y Gwasanaethau ym mhob sesiwn sefydlu newydd ar gyfer staff gweithredol a staff cymorth, i dynnu sylw at ymrwymiadau a nodau'r Gwasanaeth. Fel rhan o'r broses sefydlu, amlygir ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud mewn perthynas â Dyletswydd Adran 6, allyriadau carbon, ac adroddiadau Amgylcheddol Blynyddol.

Mae Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Gwasanaeth yn amlinellu cyflawniadau ac ystadegau o flwyddyn i flwyddyn ac yn cynnwys diweddariadau ar brosiectau amgylcheddol sydd ar droed, sy'n annog bioamrywiaeth i'r safle ac yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion Dyletswydd Adran 6 ac NRAP Cymru. Gellir dod o hyd i'r adroddiad presennol ar wefan allanol y Gwasanaeth.

Yn unol â meini prawf Adrodd Sero-Net Llywodraeth Cymru, mae meysydd perthnasol yn cael eu monitro'n fanwl, fel adeiladau, fflyd, teithio, ynni adnewyddadwy, gwastraff, defnydd o ynni ac allyriadau cadwyni cyflenwi. Adroddir ar y rhain yn flynyddol ochr yn ochr ag adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Gwasanaeth.

Ym mis Chwefror 2023, llwyddodd y Gwasanaeth i gadw ei achrediad System Rheoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd. Mae'r achrediad hwn yn sicrhau

ymrwymiad lefel uchaf o fewn y Gwasanaeth. Mae'n dangos ystyriaeth o'r effaith y gall gweithgareddau'r Gwasanaeth ei chael ar yr amgylchedd ac ymrwymiad i welliannau amgylcheddol parhaus i weithgareddau a gweithdrefnau Gwasanaeth. Dyfernir yr achrediad i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd.

Cynhelir Archwiliadau Gorsafoedd Amgylcheddol Mewnol ar gylchdro 4 blynedd. Defnyddir y rhain i dynnu sylw at unrhyw fentrau amgylcheddol a gynhelir ar safleoedd unigol, ynghyd â meysydd i'w gwella'n amgylcheddol, gan gynnwys annog cynefinoedd i safleoedd lle bo hynny'n berthnasol.

Yn gynnar yn 2023, aeth y Gwasanaeth yn fyw gyda phecyn e-ddysgu amgylcheddol newydd sydd wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân a Dysgu Gydol Oes Undeb y Brigadau Tân (FBU) Mae'r pecyn dysgu hwn ar gyfer pob gweithwyr ac fe'i datblygwyd i godi ymwybyddiaeth mewn meysydd fel bioamrywiaeth, gwastraff, dŵr, arbed ynni ac allyriadau.



## Amcan 2

**Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sy'dd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

Mae gan y Gwasanaeth ardaloedd cyfyngedig o fannau gwyrdd ar gael ar dir y Gwasanaeth ond lle mae lle ar gael bu cynnydd yn y peillwyr plannu a'r gwelyau blodau gwyllt i annog peillio bywyd gwyllt ar safleoedd.

Mae nifer o flychau ar gyfer Gwenoliaid wedi'u gosod mewn nifer o Orsafoedd Tân ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, megis ardaloedd Sir Benfro, Caerfyrddin ac Abertawe. Mae'r Gwasanaeth Tân mewn cydweithrediad ag amryw o Bartneriaethau Natur Lleol wedi defnyddio cerbydau'r Gwasanaeth i gynorthwyo i osod blychau ar adeiladau Awdurdodau Lleol eraill, gan gynnwys ysgolion ac ysbytai. Mae'r lluniau isod yn dangos Criwiau Tân yn cynorthwyo gyda gosod blychau ar gyfer Gwenoliaid yn Ysbyty Llwynhelyg, Sir Benfro.

Mae'r Adran Ystadau'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda chontractwyr Garddio allanol i wella ardaloedd gwyrdd ar safleoedd perthnasol. Mae gwaith cynnal a chadw'r tiroedd wedi'i adolygu a newidiwyd y drefn dorri i ddwywaith trwy gydol y flwyddyn, gyda thoriadau glaswellt yn cael eu gadael yn y fan a'r lle yn lle cael eu casglu ar ôl torri. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y tîm cynnal a chadw'r tiroedd a'n Hadran Ystadau i sicrhau bod y technegau rheoli gorau ar waith a bod dulliau amgen i annog bioamrywiaeth i gynifer o safleoedd â phosibl yn cael eu hystyried.

Pan fydd angen, byddwn yn cydweithio â chontractwyr allanol ac ecolegwyr i gynnal arolygon rhywogaethau mewn gwahanol leoliadau'r Gwasanaeth cyn dechrau ar unrhyw waith datblygu neu symud i sicrhau na fydd unrhyw ddifrod diangen neu niweidiol yn cael ei wneud i fywyd gwyllt yn lleol. O ganlyniad i hyn, rydym wedi ystyried sawl cynllun ynghyd â sawl syniad arloesol ychwanegol ar gyfer Gorsafoedd er mwyn annog bioamrywiaeth.






## Amcan 3

**Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd**

Mae nifer o Orsafoedd wedi bod yn rhan o brosiectau ymgysylltu cymunedol dros y blynyddoedd, gan ddefnyddio tir y Gwasanaeth i ddatblygu prosiectau cynaliadwyedd. Mae darnau bach o fannau gwyrdd segur wedi cael eu defnyddio i greu darnau bach o lysiau, gwelyau blodau gwyllt neu ardaloedd llesiant.

Gan weithio'n agos gyda'r tîm cynnal a chadw tiroedd, sefydlwyd plannu planhigion peillio a gwelyau blodau gwyllt lle bo hynny'n bosibl ar draws safleoedd y Gwasanaeth i annog peillwyr a sefydlu llwybrau gwenyn.

Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi penodi contractwr i gynnal asesiadau risg ac arolygon cyflwr coed cyffredinol i nodi coed neu ganghennau unigol a allai achosi anaf os na chânt eu trin. O'r 26 lleoliad a arolygwyd, roedd angen cynnal a chadw 10 coeden, naill ai i gael gwared ar ganghennau oedd wedi torri neu oedd angen sylw pellach.

Wedi'i gynnwys yn yr arolwg roedd asesiad i nodi unrhyw faterion o glefyd Coed Ynn nad oedd wedi effeithio ar unrhyw goeden y Gwasanaeth.

Mae unrhyw goeden neu gangen sylweddol sy'n cael eu torri ar leoliadau'r Gwasanaeth yn cael eu torri ar y safle ac mae logiau'n cael eu gadael yn y fan a'r lle i annog cynefinoedd bygiau bach. Mae cynefinoedd coed marw mwy wedi'u sefydlu ym Mhencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin o goeden fawr wedi'i thorri. Gadawyd rhan o goeden i ddatblygu pentwr yn naturiol i ddarparu gorchudd ar gyfer mamaliaid bach a chwilod a chrëwyd pentwr ar wahân yng nghefn y safle i ddatblygu rhagor o ficro gynefinoedd.

Ym mis Rhagfyr 2022, mewn ymateb i'r fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, cyfarfu'r Rheolwr Cynaliadwyedd â grŵp bach o aelodau arbenigol o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar safle Pencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin. Defnyddiwyd y cyfarfod hwn i gyflwyno adroddiad i gynghori a rhoi arweiniad ar unrhyw newidiadau buddiol i'r tir, i ddatblygu'r posibilrwydd o greu cynefinoedd yn ogystal â chynghori pa rywogaethau brodorol i'w plannu ar y safle er mwyn annog bioamrywiaeth. Roedd yr ardaloedd dan sylw yn cynnwys: gwrychoedd, coetir, glaswelltir ac argymhellion ar gyfer planhigion i beillwyr.

Trefnwyd ymweliad pellach ar gyfer y Gwanwyn i ganiatáu am ganllawiau pellach ar sut y gall gwelliannau bach ar dir y Gwasanaeth annog bioamrywiaeth i'r safle.

Mae System Draenio Gynaliadwy (SUDS) yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd yn y prif weithdy trafnidiaeth yn Dafen, a bydd hyn yn rheoli'r dŵr wyneb ar y safle yn fwy cynaliadwy. Mae hyn yn y cyfnod cynnar a bydd yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.

Yn ystod ailddatblygiad Gorsaf Dân Llandrindod, gosodwyd to briweg (sedum roof) i annog bioamrywiaeth i'r safle ac mae gardd law yn cael ei sefydlu i ganiatáu draenio cynaliadwy i'r safle

.

## Amcan 4

**Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd**

Mae'r Gwasanaeth yn awyddus i leihau effaith tanau ar fioamrywiaeth ledled Cymru. Yn ystod 2021, deliodd y Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru â 2,089 o danau glaswellt. Er bod hyn yn ostyngiad bychan o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020, roedd nifer y tanau damweiniol yn 2021 wedi cynyddu 24%. Trwy weithio gyda'n cymunedau i rannu gwybodaeth, rydym yn gobeithio darparu gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i gyfyngu ar y tanau damweiniol rhag digwydd a gwybodaeth am y difrod y gall tanau damweiniol ei achosi i'r amgylchedd.

### Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.

Mae'r Gwasanaeth bob amser wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid allanol. Mae cyfleoedd, o ganlyniad uniongyrchol i Ddyletswydd Adran 6 wedi datblygu dros y 3 blynedd diwethaf gan gynnwys cydweithio gyda :

- Partneriaeth Natur Leol Sir Benfro
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Fforwm Amgylcheddol Abertawe
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Buglife
- Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin
- Presteigne Dark Skies

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Partnership

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

buglife

### Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol

Mae Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n galed mewn perthynas â chydweithio ac mae wedi datblygu system i fapio ardaloedd lleol yng Nghymru ar gyfer map digidol i nodi rhywogaethau pori a datblygu mannau gwyrdd ar gyfer lles a hamdden.

Yn 2021, gweithiodd personél yr Orsaf gyda Grŵp Presteigne Dark Skies i leihau allyriadau golau o Orsaf Llanandras gan ganiatáu ar gyfer cynnydd ym mhresenoldeb bywyd gwyllt nosol.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymgymryd â llawer o waith ymgysylltu â'r gymuned gyda pherchnogion coedwigaeth preifat i reoli eu hardaloedd i ddiogelu rhywogaethau coed hynafol a nodi lle maent o ran cynllunio tactegol

Mae torri ar gyfer strimynnau atal tân gyda'r peiriant i-cutter wedi'i sefydlu mewn cydweithrediad rhwng y Gwasanaeth Tân a phartneriaid allanol i ddigwydd yn flynyddol rhwng mis Rhagfyr a chanol mis Mawrth mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys: Safleoedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, safleoedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, tir comin ar draws Gŵyr, Tir Comin Rhos a Chrynant ac ardaloedd yn Abertawe sydd â risg uchel

o losgi bwriadol, fel Mynydd Cilfái a Chomin Garngoch. Cynllunnir strimynnau atal tân gyda sawl partner yn seiliedig ar ddata tân hanesyddol, diogelu safleoedd sensitif, cymorth bioamrywiaeth a buddion cymunedol fel mynediad ar gyfer hamdden a llesiant.

Mae Timau Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio'n agos gydag Ysgolion i godi ymwybyddiaeth o effaith dinistriol tanau ar gymunedau a chynefinoedd.

Mae Tîm Llosgi Gwasanaeth Tân yn y cyfnod cynnar o gael ei ddatblygu. Mae hwn yn dîm o 4 neu 5 o bersonél sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer tanau gwyllt, i gyflawni llosgiad wedi'i gynllunio a'i oruchwylio o dan amodau amgylcheddol penodol i gael gwared ar danwydd o ddarn o dir a bennwyd ymlaen llaw. Gellir defnyddio'r Tîm i ddangos sut i ddiffodd tân sydd eisoes wedi sefydlu a hefyd sefydlu timau llosgi penodedig i osod ardaloedd ar dân heb achosi difrod i fywyd gwyllt a helpu rhywogaethau sy'n ffynnu o ardaloedd sydd wedi'u llosgi.

Cydweithio rhwng y Gwasanaeth Tân, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, i drafod rheoli tir i leihau risgiau tanau a strategaethau lliniaru y gellid eu gweithredu mewn ardaloedd yr effeithiwyd yn wael arnynt gan danau yn ystod haf 2022.

Mae Swyddog Cyswllt Ffermio'r Gwasanaeth yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddefnyddio'r i-cutter i sefydlu mynediad i ardaloedd a oedd yn anodd eu cyrraedd yn flaenorol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ac yn rhoi mynediad i ardaloedd na ddefnyddiwyd o'r blaen. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o gymunedau cydlynol.

Mae Grwpiau Rheoli Tir a ddatblygwyd gyda Thimau Cyswllt y Gwasanaeth Tân, fel y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, wedi bod yn llwyddiant mawr dros y blynyddoedd. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Grŵp Tir Comin Gŵyr, Grŵp Tanau Gwyllt Gŵyr ac Abertawe, gweithgorau Parciau Cenedlaethol a Phrosiect Llethrau Llon Datblygwyd Siarter Tanau Gwyllt ar gyfer Cymru hefyd yn 2023.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu rheoli heb gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Mae gan Gerbydau Diffodd Tân Becyn Gwybodaeth amgylcheddol i sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar blanhigion ac anifeiliaid o ganlyniad i achosion.



### Ymgyrch Dawns Glaw

Mae hwn yn dasglu amlasiantaeth o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i leihau, a lle bo modd, ddileu effaith tanau glaswellt ledled Cymru. Sefydlwyd y tasglu i ddechrau i fynd i'r afael ag achosion o danau glaswellt a ddechreuwyd yn fwriadol, tra bod y ffocws cychwynnol ar leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a llosgi bwriadol, mae gwaith mwy diweddar wedi canolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod eu cynlluniau rheoli tir yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

Mae'r gweithrediad hwn yn gweithio i adeiladu rhwydweithiau a chydweithio â nifer o sefydliadau allanol i gynorthwyo i wella ardaloedd naturiol a bioamrywiaeth mewn ardaloedd gwahanol o Ganolbarth a Gorllewin Cymru: Sicrhaodd y cydweithio hefyd fod ardaloedd o ddiddordeb arbennig a Thir Comin risg uchel yn cael eu rheoli'n effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o danau a helpu i ailgyflwyno anifeiliaid i bori'r ardaloedd.

**Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn ar wefan allanol y Gwasanaeth:**
[# Dawnsglaw - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (mawwfire.gov.uk)]

## Gweithio gyda'n gilydd i Amddiffyn ein Cefn Gwlad a'n Gwlad




**Mae ymgyrch Dawns Glaw yn dasglu amlasiantaeth o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i leihau, a lle bo modd, ddileu effaith tanau glaswellt ledled Cymru.**

## Amcan 5

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**

Yn 2020, arwyddodd y Gwasanaeth gontract gwastraff newydd a oedd yn caniatáu i holl wastraff y Gwasanaeth gael ei gasglu gan un contractwr yn hytrach na 6 chontract gwahanol. Mae hyn yn caniatáu i fodd haws o gasglu a monitro data, gan sicrhau bod data gwastraff yn fwy cywir o ran pwysau a gwahaniad i gywiro ffrydiau gwastraff. Dim ond 1% o wastraff y Gwasanaeth sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, gyda 99% yn cael ei ailgylchu, ei adfer, neu ei ddefnyddio ar gyfer ynni a threulio anaerobig.

Mae posteri bellach yn cael eu dosbarthu ledled y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o ddata gwastraff fesul Gorsaf.

Cynhelir Cyfarfodydd Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd bob chwarter lle trafodir bioamrywiaeth ac amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth fel eitem agenda safonol. Rhoddir diweddariadau gan Adrannau ac Is-adrannau unigol ar brosiectau amgylcheddol lle bo hynny'n berthnasol.

Ym mis Chwefror 2023, llwyddodd y Gwasanaeth i gadw achrediad System Reoli Amgylcheddol (EMS) Lefel 5 y Ddraig Werdd am y 9fed flwyddyn yn olynol. Mae hwn yn archwiliad allanol blynyddol sy'n sicrhau gwelliant a monitro amgylcheddol parhaus ar draws pob agwedd o'r Gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau, adroddiadau amgylcheddol, prosesau monitro a gweithdrefnau'r Gwasanaeth, dogfennau canllaw a chyfathrebiadau i staff. Mae'n caniatáu i'r Gwasanaeth fod yn hyderus bod yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn cael ei dilyn ac yn sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithgareddau'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn isel. Mae archwilwyr yn mynychu detholiad bach o leoliadau'r Gwasanaeth i gynnal archwiliad safle ac i adolygu'r gwaith papur.

Mae systemau swyddfa gefn gwell yn caniatáu monitro a chofnodi mwy cywir o gyfleustodau, diffygion Ystadau a gwastraff. Mae'r casgliad data gwell wedi caniatáu i bosteri ymwybyddiaeth o ddefnydd ynni a gwastraff o fewn y Gwasanaeth gael eu dosbarthu i dynnu sylw at ddefnydd mewn lleoliadau unigol. Amlygir a thrafodir y ffigurau hyn yng nghyfarfodydd Ardal Rhanbarthol ac yng Nghyfarfodydd Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd y Gwasanaeth .

Defnyddir y data a gymerir o'r swyddfa gefn i adrodd i Lywodraeth Cymru ar yr adroddiad Sero Net sy'n ofynnol gan bob Sefydliad Sector Cyhoeddus ac o fewn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Gwasanaeth.



## Amcan 6

**Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion**

Fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn dull cydweithredol o rannu gwybodaeth a phrosiectau. Mae gan y Gwasanaeth gynrychiolaeth mewn nifer o Grwpiau BGC ym mhob un o'r 6 Sir sydd wedi'u hanelu at addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac Adfer Natur ar gyfer yr ardal honno.

Mae enghraifft o gydweithio llwyddiannus drwy'r Grŵp BGC yn cynnwys llwyddo i gael cyllid gan CNC yn 2021, trwy is-grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, a defnyddiwyd yr arian hwn i greu strimynnau atal tân ar Dir Comin yn ardal Abertawe. Roedd hwn yn gydweithrediad rhwng aelodau o Grŵp Gweithio gyda Natur BGC Abertawe gan gynnwys Cyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân a arweiniodd at effaith gadarnhaol ar ecosystemau'r ardaloedd.

Archwiliadau Amgylcheddol, yn fewnol ac yn allanol ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth. Cwblheir Archwiliadau Amgylcheddol Gorsafoedd ar amserlen 4 blynedd gyda'r safleoedd risg uwch fel y prif weithdy trafnidiaeth yn cael ei archwilio'n flynyddol. Rhwng 2020 a 2023 mae'r Gwasanaeth wedi cael archwiliadau allanol gan Ganolfan Busnes Gwyrdd Cymru ac Archwilio Cymru, ynghyd â chyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag Adrodd ar Sero-Net.

Mae'r Gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun Datgarboneiddio a fydd yn cael ei gwblhau erbyn Haf 2023. Er mwyn sicrhau trefniant adrodd cyson, cynhelir cyfarfodydd Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd y Gwasanaeth bob chwarter, mae'r rhain yn cael eu cadeirio gan Bennaeth Risgiau Sefydliadol y Gwasanaeth ac yn cael eu cynnal gan y

Rheolwr Cynaliadwyedd. Mae aelod etholedig o'r Awdurdod Tân yn gweithredu fel Hyrwyddwr yr Amgylchedd ac yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys diweddariadau ar brosiectau amgylcheddol, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ystadegau defnydd chwarterol a diweddariadau ar amcanion amgylcheddol y Gwasanaeth. Fel ffordd arall o lywodraethu, mae unrhyw brosiectau neu adroddiadau amgylcheddol ar raddfa fawr, fel yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, yn destun trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Gwasanaeth, a adroddir drwy'r Cyfarwyddiaethau, Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer sylwadau a

## Beth fu'r rhwystrau a beth fydd yn wahanol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 3 blynedd nesaf?

Bu nifer o rwystrau mewn perthynas â'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn berchen ar ychydig iawn o dir lle gellir ond cael effaith fechan ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth yn benodol ar safleoedd y Gwasanaeth, felly teimlir y gellir gwneud mwy o effaith wrth gynorthwyo sefydliadau allanol trwy gydweithio.

Mae cyllideb gyfyngedig i allu datblygu prosiectau amgylcheddol ar raddfa fawr yn benodol ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth.

Beth bynnag fo'r cyfyngiadau, bydd y Gwasanaeth yn parhau i adeiladu partneriaethau â sefydliadau allanol ar draws y 6 awdurdod unedol o fewn y maes Gwasanaeth, gan weithio gyda'r rhwydwaith o sefydliadau sydd eisoes wedi'u sefydlu ac ymdrechu i ffurfio cydweithrediadau newydd.

O ganlyniad i COVID-19, cafodd nifer o brosiectau a Grwpiau eu gohirio. Ffurfiwyd Gweithgor Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth penodol i fonitro ac annog cyfranogiad ehangach ar draws personél y Gwasanaeth na chyrhaeddodd ei lawn botensial oherwydd y cyfnod clo a bydd yn cael ei adfywio yn y flwyddyn nesaf. Bydd y grŵp hwn yn cyfrannu at y Grŵp Cynaliadwyedd, a bydd hyn yn sicrhau bod yr amcanion yn parhau'n berthnasol.



# Adran 3 – Casgliad ac Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at yr amcanion a amlinellir o fewn yr Cynllun Gweithredu Adfer Natur gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddyletswydd hon wedi annog cydweithredu â sefydliadau allanol i gyflawni'r ddyletswydd gyda'r sefydliadau hynny i ofyn**



Mae'r Adroddiad hwn yn dangos bod y Gwasanaeth wedi cymryd camau sylweddol tuag at wireddu'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020-23 a'r amcanion yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Amlinellir amcanion pellach yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth 2023-26

Bu mwy o ymwybyddiaeth o fewn y Gwasanaeth mewn perthynas â diogelu a gwella bioamrywiaeth nid yn unig ar safleoedd y Gwasanaeth ond ar draws yr ardal y mae'r Gwasanaeth yn ei diogelu. Mae meysydd allweddol yn parhau i gael eu codi a'u trafod o fewn y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd a bydd personél allweddol yn ymwneud â gweithio tuag at amcanion newydd dros y 3 blynedd nesaf.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd i weithredu ac adrodd ar amcanion amgylcheddol. Gwneir hyn drwy Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 mlynedd.

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu ar Fioamrywiaeth yn dilyn y Ddyletswydd Adran 6 i helpu i weithredu'r Cynllun a'i ddatblygu. Bydd y Grŵp hwn yn helpu i weithredu prosiectau a chamau gweithredu bioamrywiaeth ac yn helpu i lywio'r Gwasanaeth yn benodol, ar gyfer targedau anweithredol.

Bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth 2023 -26, sef y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gynt, yn cael ei gyhoeddi yn unol ag amserlen adrodd blwyddyn ariannol y Gwasanaeth a bydd ar gael ar y wefan allanol yn ystod Gwanwyn 2023.



# Cyfryngau Cymdeithasol

**Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020 -23

Adroddiad Monitro Dyletswydd Adran 6

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

HOFFI DILYN RHANNU

LIKE FOLLOW SHARE

Ein Negeseuon Diogelwch

Our Safety Messages

www.tancgc.gov.uk/cym